



Cyfarfod

**BWRDD PENSIWN**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 15FED RHAGFYR, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2022)

**BWRDD PENSIWN**

**AELODAETH**

**CYNNRYCHIOLWYR CYFLOGWR**

**Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru)**

**Sioned Parry (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy)**

**Cynghorydd Beca Roberts (Cyngor Gwynedd)**

**CYNNRYCHIOLWYR AELODAU**

**Hywel Eifion Jones (wedi ymddeol – Cyngor Môn gynt)**

**Osian Richards (Cyngor Gwynedd)**

**Sharon Warnes (wedi ymddeol - Cyngor Gwynedd gynt)**

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

## 4. COFNODION

6 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 3ydd Hydref 2022 fel rhai cywir

## 5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU A MATERION YN CODI

10 - 15

- Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd 21 Tachwedd 2022.
- Materion yn codi o'r Pwyllgor Pensiynau ar 21 Tachwedd 2022

Nodi'r wybodaeth a'r penderfyniadau a wnaed

## (A) PWYLLGOR PENSIYNAU YMGYNGHORIAD TCFD

16 - 18

I nodi'r wybodaeth

## **(B) RHAGFANTOLI ARIAN CYFRED**

19 - 23

I nodi'r wybodaeth

## **(C) CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny)

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol awdurdod cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn amhriodol o ran buddiannau cydnabyddedig trydydd bartïon ac yn gallu taseilio hyder i ddod a gwybodaeth ymlaen gerbron y Cyngor ac felly gallu'r Cyngor i wneud penderfyniadau ar ran y gronfa. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r allbwn cyfansawdd gorau . Am y rhesymau hyn mae'r mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus

## **(D) PROSIECT YNNI GLAN YNG NGHYMRU (PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU)**

Copi i'r Aelodau yn unig

## **(E) ADOLYGIAD O DDYRANIAD ASED AU STRATEGOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD**

Copi i'r Aelodau yn unig

## **(F) AIL AGOR Y CYFARFOD I'R WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahodd yn ôl i'r cyfarfod

**6. ADRODDIAD ARCHWILIO CYMRU Y GRONFA BENSIWN** 24 - 39

I ystyried a nodi adroddiad yr archwilwyr

**7. DIWEDDARIAD ACHOS MCCLOUD** 40 - 43

I ystyried yr adroddiad

**8. RHAGLEN DASHFYRDDAU PENSIYNAU** 44 - 46

I ystyried yr adroddiad

# Eitem 4

---

## BWRDD PENSIWN 03-10-22

---

**Yn bresennol:** H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Aelodau), Sioned Parry (Cynrychiolydd Cyflogwr), Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau), Cyng. Beca Roberts (Cynrychiolydd Cyflogwr) a Huw Trainor (Cynrychiolydd Cyflogwr)

**Swyddogion:** Dafydd Edwards (Cyfarwyddwr y Gronfa), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

### Eraill a wahoddwyd

Cynghorydd Stephen Churchman – Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau

#### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Sharon Warnes (Cynrychiolydd Aelodau).

Croesawyd y Cynghorydd Beca Roberts i'w chyfarfod cyntaf fel Cynrychiolydd Cyflogwyr ar ran Cyngor Gwynedd

#### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

#### 3. MATERION BRYN

Yn sgil yr holl ansefydlogrwydd yn y byd (Rhyfel Wcráin, Covid 19, Brexit a chynnydd cyffredinol mewn prisiau a gostyngiad yng ngwerth prynu arian, caniatwyd y cwestiwn canlynol i'r ystyried fel mater bryn.

A yw'r digwyddiadau diweddar gyda'r economi wedi cael effaith mawr ar y gronfa?

Mewn ymateb, nododd Cyfarwyddwr y Gronfa, yng nghyd-destun Asedau'r Gronfa bod y digwyddiadau diweddar heb fod yn niweidiol ar y cyfan, a bod rhai cynnydd gyda agweddau'n ffafriol oherwydd bod asedau ecwiti y Gronfa yn seiliedig ar ddoler UDA ac felly cwmp y £ yn ffafriol; bod dim bondiau yn y portffolio a'n buddsoddiadau incwm sefydlog ni wedi' eu gwarchod (*currency-hedged*) ac felly'n niwtral; ac eiddo i raddau yn codi gyda chwyddiant. Ategwyd, er bod ymrwymadau'r Gronfa yn cynyddu rhagwelir gyda chwyddiant tal a chwyddiant pensiwn, bod modd rheoli'r sefyllfa drwy gymryd agwedd hir dymor.

Ategodd Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau, bod rheolwyr asedau, mewn cyfarfod diweddar, wedi ymateb i bryderon aelodau'r Pwyllgor am y digwyddiadau diweddar, ac wedi eu hargyhoeddi bod y sefyllfa yn galonogol a'u bod o ganlyniad yn hyderus nad oedd effaith niweidiol i berfformiad y gronfa.

#### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 18 Gorffennaf 2022 fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD LLAFAR AR Y PRISIAD ACTIWARAIDD

Cymerodd Cyfarwyddwr y Gronfa'r cyfle i roi diweddariad byr ar y prisiad actiwaraid a bod y gwaith yn cyd-fynd a'r amserlen a osodwyd. Atgoffwyd yr Aelodau bod y rhagdybiaethau wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau ac i'r Bwrdd Pensiwn ym mis Ionawr 2022; bod yr Uned Weinyddol wedi bod yn cywiro a thacluso data ac wedi ei gyflwyno ymlaen yn amserol i'r actiwari (Hymans Robertson); bod cyfres o drafodaethau wedi eu cynnal gyda Hymans a chydweithredu da gyda'r Uned Weinyddol.

Nodwyd y bydd Aelodau'r Bwrdd Pensiwn yn cael eu gwahodd i gyflwyniad gan yr actiwari Hydref 26ain 2022.

Nodwyd y bydd cynnydd y cyffredinol mewn chwyddiant yn golygu cynnydd mewn cost pensiynau, ac o ganlyniad byddai cynnydd yn y gyfradd sylfaenol (*primary rate*) i'r dyfodol, ond mynegwyd bu cynydd sylweddol yng ngwerth yr asedau dros y blynnyddoedd diwethaf wedi perfformiad da ac o ganlyniad byddai modd gostwng i'r dyfodol.

Diolchwyd i'r staff am eu gwaith ac i'r Uned Weinyddol am gyflwyno'r wybodaeth yn amserol.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL (drafft) CRONFA BENSIWN GWYNEDD am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

Cyflwynwyd adroddiad (drafft) gan y Rheolwr Buddsoddi yn manylu ar weithgareddau'r Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y cyfrifon, adroddiad gan y Bwrdd, gweinyddiaeth pensiynau, crynhoad o'r asedau a pholisïau perthnasol.

Ymddengys bod y Gronfa wedi cael blwyddyn lwyddiannus gyda gwerth y Gronfa wedi cynyddu gyda dychweliadau cryf. Cyfeiriwyd at rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn megis bod y gwaith pwlio yn parhau i fynd o nerth i nerth, bod polisi buddsoddi cyfrifol wedi ei fabwysiadu a bod y system i-connect, sy'n darparu ffordd hawdd, gost-efeithiol o gyfnewid dogfennau electronig ymhlith partneriaid, yn parhau i fod yn llwyddiannus.

Amlygwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei adolygu fel rhan o Archwiliad y Cyfrifon Terfynol gan Archwilio Cymru cyn ei gyflwyno'n derfynol am gymeradwyaeth y Pwyllgor Pensiynau.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i sylw bod perfformiad y gwaith o ddarparu trosglwyddiadau o fuddion pensiwn i mewn ac allan o'r gronfa wedi gwaethygu, amlygwyd mai'r rhesymau am hyn oedd; bod staff wedi gadael; bod hyfforddi staff o bell yn y maes cymhleth hwn wedi bod yn heriol; bod staff profiadol wedi bod i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth neu salwch hir dymor. Y gobaith yw gweld gwelliant yn 2022/23

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â sut bydd modd rhagfynegi lleihad mewn risg yn y 10 mlynedd nesaf o ystyried ansefydlogrwydd yn y byd o ganlyniad i Covid 19, Brexit a Rhyfel Wcráin, nodwyd bod bwriad, wedi i'r adroddiad gael ei gymeradwyo, adolygu'r portffolio ac ystyried addasu lefelau risg dro ar ôl tro (*re-risk*) yn hytrach na lleihau risg (*de-risk*). Ategwyd bod modd trafod symud allan o fuddsoddi 'byd-eang' ac ystyried i'r dyfodol y posibilrwydd o fuddsoddi mewn isadeiledd neu ecwiti preifat tu allan i'r Deyrnas Unedig. Nodwyd hefyd, gyda'r gronfa mewn sefyllfa fanteisiol bod

modd bod yn anturus ac ystyried buddsoddi mewn gweithgareddau lleol i Gymru, i'r amgylchedd ac i'r gymuned - byddai modd targedu posibiliadau.

### **Derbyniwyd yr adroddiad**

## **7. TASGLU AR DDATGELIADAU ARIANNOL CYSYLLTIEDIG Â'R HINSAWDD (*Task Force on Climate-related Financial Disclosures* - TCFD) - YMGYNGHORIAD TCFD**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gronfa yn hysbysu'r Aelodau fod Llywodraeth San Steffan yn y broses o ymgynghori ar gynigion ar ofynion newydd ar awdurdodau gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

Yn ôl y disgwyl, bydd y cynigion yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol y CPLIL asesu, rheoli ac adrodd ar risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd, yn unol ag argymhellion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd ('TCFD'). Disgwylir i'r rheoliadau ddod i rym erbyn Ebrill 2023.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar y 1af o Fedi 2022 a bydd angen cyflwyno ymateb cyn y 24ain o Dachwedd 2022. Amlygwyd mai'r bwriad oedd paratoi ymateb drafft ar ran Cronfa Bensiwn Gwynedd i'w gymeradwyo ym Mhwyllgor Pensiynau 14 Tachwedd 2022.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Awgrymwyd rhannu'r ymateb drafft gydag Aelodau'r Bwrdd Pensiwn

### **Derbyniwyd yr adroddiad**

## **8. DIWEDDARIAD AR BARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddarau'r aelodau'n ffurfiol o waith Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC). Adroddwyd bod cydweithio yn parhau i fynd o nerth i nerth ar faterion megis ymateb ceisiadau rhyddid gwybodaeth, pleidleisio ac ymgysylltu ac yn gyffredinol rhannu ymarfer da ar draws y cronfeydd. Nodwyd bod 83% o Gronfa Gwynedd wedi ei bwlio gyda PPC erbyn hyn.

Tynnwyd sylw at y cronfeydd ecwiti gan gyfeirio at berfformiad Cronfa Twf Byd Eang sydd â thri phrif reolwr sydd gweithredu arddull gwahanol iawn i'w gilydd - Baillie Gifford, Pzena a Veritas. Atgoffwyd yr Aelodau bod y gronfa yma, yn y blynyddoedd cynnar, yn perfformio yn dda iawn, a hynny yn bennaf oherwydd perfformiad Baillie Gifford. Bellach, amlygwyd bod Baillie Gifford yn tan berfformio a hynny yn bennaf oherwydd natur eu buddsoddiadau a bod eu perfformiad yn un 'cylchol' (weithiau yn dda, a thro arall ddim cystal). Ategwyd bod trafodaethau diweddar wedi eu cynnal gyda Baillie Gifford ac er y cyfnod heriol, eu bod yn hyderus yn y cwmnïau maent yn buddsoddi ynddynt.

Yng nghyd-destun Cronfa Cyfleoedd Byd-Eang adroddwyd bod y gronfa yn cynnwys wyth rheolwr sylfaenol ar er na fydd pob rheolwr yn perfformio yn dda ar yr un pryd, bod y dull amrywiol yn golygu sefyllfa sefydlog a'r gronfa yn perfformio yn uwch na'r meincnod yn rheolaidd.

Yng nghyd-destun Cronfeydd Incwm Sefydlog, cyfeiriwyd ar y Gronfa Gredyd Aml-ased sydd â phum rheolwr buddsoddi gwahanol. Adroddwyd bod y gronfa wedi tan -berfformio a hynny oherwydd ansefydlogrwydd yn y farchnad gyda rhyfel Wcráin, cyfyngiadau covid Tsiena, ac effaith codiadau llog cyflym. Ategwyd, er pryderon bod



y gronfa yn mynd drwy gyfnod heriol, ymrwymiad buddsoddi tymor hir oedd yma ac felly parhau gyda'r buddsoddiadau yn y gobaith o brofi cynnydd ar ddiwedd yr ansefydlogrwydd oedd y nod.

Wrth drafod Cronfa Enillion Bond Absoliwt, sydd â phedwar rheolwr buddsoddi, amlygwyd bod yr amodau yn y maes yma hefyd wedi bod yn heriol gydag effaith chwyddiant a chyfraddau llog, ond eto, yr ymrwymiad yn un tymor hir ac felly parodwyd i barhau gyda'r buddsoddiadau yn y gobaith o brofi cynnydd.

Adroddwyd bod y Gronfa Marchnadoedd Datblygol, a lanswyd Hydref 2021, gyda chwe rheolwr buddsoddi sylfaenol gan gynnwys Bin Yuan arbenigwr Tsiena. Nodwyd bod yr amodau eto yn heriol iawn ac mai Bin Yuan oedd wedi achosi'r elfen o dan berfformiad a hynny oherwydd polisi dim covid Tsiena. Ategwyd mai'r gobaith yw gweld gwellhad yn amodau'r farchnad a dychweliadau da.

Cyfeiriwyd at y datblygiadau sydd gan PPC ar y gweill gan nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes marchnadoedd preifat gyda chwmnïau wedi eu hapwyntio i redeg y mandadau dyled preifat ac isadeiledd. Ategwyd bod gwaith cefndirol yn cael ei wneud i sefydlu'r cwmnïau yn y gobaith o fuddsoddi ynddynt yn 2023/ 24. Bwriad Cronfa Gwynedd yw gadael i'r buddsoddiadau isadeiledd ac ecwiti preifat aeddfedu yn naturiol ac yna buddsoddi yn raddol gyda'r pwl. Nodwyd bod trafodaethau cychwynnol hefyd wedi dechrau mewn perthynas â'r dosbarth asedau eiddo.

Yng nghyd-destun Cronfa Ecwiti Cynaliadwy sef cronfa a grëwyd gan Russell Investments ar ôl asesu anghenion buddsoddi cyfrifol y pwl, amlygwyd bod bwriad i'r gronfa yma fynd yn fyw Chwarter 1, 2023 gyda nodweddion y gronfa yn sicrhau bod hwn yn gam i'r cyfeiriad cywir mewn buddsoddi cyfrifol. Ategwyd y bydd Cronfa Gwynedd yn symud rhan o'i buddsoddiadau ecwiti i'r Gronfa yma ond bod y manylion i'w cadarnhau.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at wefan PPC lle ceir nifer o ddogfennau defnyddiol. Amlygwyd hefyd y ffioedd sylweddol sydd i redeg y pwl ac eglurwyd bod y ffioedd hyn yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng aelodau'r bartneriaeth - y ffioedd yn cynnwys ffioedd ymgynghorwyr, cyfreithwyr, gwaith cyfieithu a gwaith darparwr pleidleisio ac ymgysylltu.

Diolchwyd am yr adroddiad ac i'r holl staff oedd yn gysylltiedig â'r gwaith

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ar ffioedd, nodwyd bod y costau gweinyddol yn cael eu rhannu yn gyfartal rhwng yr wyth gronfa sydd yn rhan o'r bartneriaeth, ond bod costau buddsoddiadau yn cael eu rhannu fesul maint buddsoddiad unigol pob cronfa.

### **Derbyniwyd y wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 1:55pm

# Eitem 5

---

## PWYLLGOR PENSIYNAU 21-11-22

---

### Presenoldeb:

### Cynghorwyr:

Stephen Churchman, Richard Medwyn Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, John Pughe Roberts ac Ioan Thomas

### Swyddogion:

Dafydd Edwards (Cyfarwyddwr y Gronfa), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

### Eraill a wahoddwyd:

Sioned Parry (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)  
Yvonne Thomas a Ben Hughes (Archwilio Cymru)  
Kenneth Taylor (Hymans Robertson)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy), John Brynmor Hughes a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2022 fel rhai cywir.

## 5. RHEOLAETH TRYSORLYS 2022-23 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

a) Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad yn amlygu gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym Mawrth 2022 cymeradwywyd y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer y flwyddyn 2022/23 a penderfynwyd yn y Pwyllgor Pensiynau, 17 Mawrth 2022 i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn cael ei gronni a'i gyd-fuddsoddi a llif arian cyffredinol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol yma. Amlygwyd, yn ystod y chwe mis rhwng y 1af o Ebrill a 30 Medi 2022 nad oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu. Ategwyd yr amcangyfrifir bod incwm buddsoddi'r Cyngor yn uwch na'r incwm disgwyliedig yng nghyllideb 2022/ 23.

Eglurwyd, yn y cyd-destun allanol bod y cyfnod wedi bod yn un heriol o fewn y marchnadoedd gydag ansicrwydd gwleidyddol ac effaith gwrthdaro Wcráin yn parhau. O ganlyniad, mae chwyddiant wedi cynyddu'n eithriadol yn ogystal â'r gyfradd llog sylfaenol.

Yn nhermau gweithgareddau buddsoddi, cyfeiriwyd at y mathau o fuddsoddiadau y buddsoddir ynddynt sydd, yn unol ar arfer, yn cynnwys banciau a chymdeithasau adeiladu, awdurdodau lleol, cronfeydd marchnad arian, cronfeydd cyfun a'r swyddfa rheoli dyledion. Adroddwyd bod cyfraddau llog y buddsoddiadau wedi gwella o tua 1.5% yn ystod y cyfnod dan sylw, a rhagwelwyd y bydd y cyfraddau yn codi ymhellach yn y misoedd nesaf. Golygai hyn felly y bydd y lefel llog disgwyledig am y flwyddyn ariannol yn sylweddol uwch na'r gyllideb nag yr hyn a ragwelwyd.

Cadarnhawyd bod gweithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod yn cydymffurfio gyda Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheoli Trysorlys. Nodwyd mai'r unig ddangosydd gyda diffyg cydymffurfiaeth oedd 'dangosydd risg cyfradd llog'. Eglurwyd bod y dangosydd yma wedi ei osod pan roedd y gyfradd llog yn 0.1% ac nad oedd modd rhagweld cynnydd mor sylweddol yn y gyfradd llog ar y pryd - bydd hyn yn rhoi cyfle efallai i ddenu incwm llog sylweddol uwch.

Yng nghyd-destun rhagolygon ar gyfer gweddiill 2022/23 amlygwyd bod Arlingclose yn disgwyl i gyfradd llog y banc gyrraedd 5% erbyn diwedd y flwyddyn, a bod disgwyl i Brydain fod mewn dirwasgiad.

Diolchwyd am yr adroddiad

## **PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad, er gwybodaeth**

## **6. TASGLU AR DDATGELIADAU ARIANNOL CYSYLLTIEDIG Â'R HINSAWDD ('TCFD') – YMGYNGHORIAD TCFD**

- a) Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gronfa yn hysbysu'r Aelodau fod Llywodraeth San Steffan yn y broses o ymgynghori ar gynigion ar ofynion newydd ar awdurdodau gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Fel atodiad i'r adroddiad, cyflwynwyd ymateb Cronfa Bensiwn Gwynedd i'r ymgynghoriad oedd wedi ei baratoi gyda mewnbwn ymgynghorwyr y Gronfa, Hymans Robertson.

Yn ôl y disgwyl, bydd y cynigion yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol y CPLIL asesu, rheoli ac adrodd ar risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd, yn unol ag argymhellion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd ('TCFD'). Disgwylir i'r rheoliadau ddod i rym erbyn Ebrill 2023.

Nodwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cefnogi'r ymgynghoriad a'r y cynnig i ymgorffori gofynion llywodraethu risg hinsawdd ac adroddiadau gofynnol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) Bydd hyn yn sicrhau bod gofynion y sector cyhoeddus yn cyd fynd gyda'r gofynion hynny sydd eisoes ar waith ar gyfer cynlluniau pensiwn y sector preifat. Ategyd, fel buddsoddwyr hirdymor, gall y CPLIL chwarae rhan bwysig wrth gyfarch newid hinsawdd drwy ei fuddsoddiadau a'i stiwardiaeth. Ategyd y byddai'r canllawiau hefyd yn cynnig trefn safonol ar gyfer dangos cynnydd mewn modd y gall ei fesur.

Amlygwyd, er bod y cynigion yn cyfeirio at ganllawiau statudol disgwyledig ar gyfer awdurdodau gweinyddol, ystyriwyd mai defnyddiol fyddai cael canllawiau ychwanegol,

statudol neu fel arall, ar gyfer Cronfeydd CPLIL. Cyflwynwyd y cynnig yma fel rhan o'r ymateb gan nodi, o ystyried pwysigrwydd canllawiau o'r fath, y gobaith yw i'r llywodraeth ymgynghori ar wahân ar y canllawiau hyn cyn i'r cynigion gael eu cwblhau.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Nododd y Cadeirydd bod yr ymateb wedi ei lunio mewn modd adeiladol ac roedd yn croesawu sylwadau'r swyddogion.

## **PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo ymateb Cronfa Bensiwn Gwynedd i'r ymgynghoriad ar lywodraethu ac adrodd ar risgiau hinsawdd yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)**

## **7. CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 Mawrth 2022 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL**

Croesawyd Yvonne Thomas a Ben Hughes o Archwilio Cymru i'r cyfarfod.

- a) Cyflwynwyd adroddiad ynghyd a Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2021/22 (ôl archwiliad), gan Gyfarwyddwr y Gronfa yn darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2022. Atgoffwyd yr Aelodau bod drafft o'r cyfrifon wedi eu cyflwyno i gyfarfod 27ain Mehefin 2022 ac nad oedd newidiadau arwyddocaol yn dilyn archwiliad gan Archwilio Cymru.

Gwahoddwyd Yvonne Thomas (Archwilio Cymru) i gyflwyno adroddiad 'ISA260'. Adroddwyd bod yr archwilwyr yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni, unwaith y byddai'r Llythyr Cynrychiolaeth wedi ei arwyddo. Eglurwyd na all archwilwyr fyth roi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir ond yn hytrach yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennwyd lefel perthnasedd o £27.794 miliwn ar gyfer archwiliad eleni i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a all arwain fel arall at gamarwain rhywun sy'n defnyddio'r cyfrifon.

Tynnwyd sylw at y penawdau isod:

- Effeithiau Covid-19 ar archwiliad eleni
  - Nad oedd camddatganiadau wedi eu canfod yn y cyfrifon nas cywirwyd
  - Er rhai mân wallau naratif yn y datganiad ariannol drafft bod y rhain bellach wedi eu cywiro
  - Bod y wybodaeth a gyflwynwyd o ansawdd uchel ac yn bositif iawn
- b) Diolchwyd i'r Archwilwyr am eu cydweithrediad a'u gwaith trylwyr. Gwerthfawrogwyd ymroddiad a chywirdeb y gwaith a diolchwyd i'r Rheolwr Buddsoddi a'r tîm am baratoi'r cyfrifon.
- c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylw canlynol:
- Bod yr adroddiad yn un calonogol a phositif - yn rhoi hyder bod pethau yn dda a bod canlyniad yr archwiliad yn amlygu gwaith da'r swyddogion

## **PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn a nodi adroddiad 'ISA 260' gan Archwilio Cymru**

- **Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd ôl -archwiliad ar gyfer 2021/22**
- **Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth (yn electroneg)**

## **8. RHAGFANTOLI ARIAN CYFRED**

Croesawyd Mr Kenneth Taylor o Hymans Robertson i'r cyfarfod.

- a) Cyflwynwyd adroddiad gan Cyfarwyddwr y Gronfa yn amlinellu'r bwriad i sefydlu trefniadau rhagfantoli arian cyfred mewn perthynas â rhan o bortffolio ecwiti rhestredig Gwynedd. Adroddwyd nad oedd y Gronfa wedi defnyddio rhagfantoli arian cyfred yn hanesyddol (ac eithrio ar gyfer mandadau incwm sefydlog), ond bod amodau presennol y farchnad yn golygu mai doeth fyddai amddiffyn rhai enillion diweddar rhag cynnydd yng ngwerth Sterling yn y dyfodol. O ganlyniad, trafodwyd y posibilrwydd gydag ymgynghorwyr y Gronfa,, Hymans Robertson.

Awgrymwyd i'r Pwyllgor ystyried gwarchod cyfran o'r risg arian cyfred drwy newid cronfeydd ecwiti byd-eang Black Rock i sail arian wedi'i warchod, fel mesur tactegol tymor byr. Byddai hyn yn rhagfantoli'r risg arian cyfred o tua 40% o ddyraniad ecwiti byd-eang y Gronfa. Byddai angen cael gwared ar y warchodaeth (hedging) pan fydd y Sterling yn symud o fewn efallai 20% o'i gyfradd gyfnewid gyfartalog hirdymor. Byddai hyn yn cyfateb i gyfradd gyfnewid o \$1.30 i \$1.35 (tua 15% i 20% yn uwch na'r lefelau presennol).

Ategodd yr ymgynghorydd bod yr opsiwn o ystyried buddsoddi tymor byr drwy ddefnyddio rhagfantoli arian cyfred yn addas ac y byddai'n fodd o fanteisio ar y gyfradd gyfnewid bresennol gyda'r posibilrwydd o ychwanegu gwerth.

Diolchwyd am yr adroddiad

- b) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau trosglwyddo i gronfa ecwiti byd-eang Black Rock, nodwyd nad oedd costau trosglwyddo dim ond costau cynnal sylfaenol.
- c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylw canlynol:
- Bod barn yr ymgynghorwyr yn broffesiynol a rhesymol
  - Yn awyddus i ddechrau cyn colli cyfle
  - Bod rhagfantoli yw'r opsiwn gorau ar hyn o bryd ac yn gwarchod enillion i'r dyfodol.

## **PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cymeradwyo'r bwriad i rag fantoli arian cyfred dros dro am ran o bortffolio ecwiti'r Gronfa**
- **Grymuso'r swyddogion ac ymgynghorydd y Gronfa i sefydlu trefniadau rhagfantoli arian mewn perthynas â chronfeydd ecwiti byd-eang Gwynedd gyda Black Rock**

## **9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiadau yn**

**cynnwys gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol( yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny)**

**Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol awdurdod cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn amhriodol o ran buddiannau cydnabyddedig trydydd parti ac yn gallu tanseilio hyder i ddod a gwybodaeth ymlaen gerbron y Cyngor ac felly gallu'r Cyngor i wneud penderfyniadau ar ran y gronfa. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r allbwn cyfansawdd gorau .**

#### **10. PROSIECT YNNI GLAN YNG NGHYMRU (PARTNERIAETH PENSIWN Cymru)**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gronfa yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo dyraniad i fuddsoddi mewn prosiect ynni glan uniongyrchol yng Nghymru. Nodwyd bod y prosiect dan sylw wedi ei drafod yn helaeth a sylwadau wedi eu derbyn gan ymgynghorwyr y gronfa, Hymans Robertson.

##### **PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cymeradwyo dyraniad ariannol (o oddeutu £9m - £10m) i fuddsoddi mewn prosiectau ynni glan uniongyrchol yng Nghymru, gan nodi bwriad Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) i gynnal diwydrwydd dyledus**

##### **PENDERFYNWYD**

#### **11. ADOLYGIAD O DDYRANIAD ASED AU STRATEGOL CRONFA BENS IWN GWYNEDD**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gronfa yn amlygu casgliadau'r adolygiad tair blynedd o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa a gynhyrwyd gan ymgynghorwyr y Gronfa, Hymans Robertson. Cyflwynwyd argymhellion cychwynnol ar y dyraniad asedau ar gyfer portffolio buddsoddi'r Gronfa.

##### **PENDERFYNWYD**

- **Derbyn a nodi'r Adolygiad Strategol o Ddyraniad Asedau**
- **Cymeradwyo dyraniad strategol diwygiedig y Gronfa, Opsiwn 2 fel amlinellwyd y tabl o dan rhan 3 o'r adroddiad**
- **Cymeradwyo dyraniad diwygiedig o ecwiti rhestredig fel argymhellwyd y tabl o dan rhan 6 o'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben 15:10

CYFARFOD	<b>BWRDD PENSIWN</b>
DYDDIAD	<b>15 RHAGFYR 2022</b>
TEITL	<b>Materion yn codi o Pwyllgor Pensiynau 21ain Tachwedd 2022</b>
PWRPAS	<b>I egluro yr argymhellion a penderfyniadau a wnaed ym Mhwyllgor Pensiynau 21ain Tachwedd 2022</b>
ARGYMHELLIAD	<b>I nodi'r wybodaeth a penderfyniadau</b>
SWYDDOGION PERTHNASOL	<b>Dafydd L Edwards, Cyfarwyddwr y Gronfa Delyth Wyn Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi</b>

---

## **1. PWYLLGOR PENSIYNAU 21ain TACHWEDD 2022**

Cafwyd nifer o benderfyniadau arwyddocaol yn y pwyllgor sydd am effeithio'r Gronfa yn y dyfodol. Maen't fel a ganlyn:

- 5a Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) - Ymgynghoriad CPLIL
- 5b Rhagfantoli Arian Cyfred
- 5d Prosiect Ynni Glan yng Nghymru (Partneriaeth Pensiwn Cymru)
- 5e Cymeradwyo Dyraniad Asedau Strategol Diwygiedig y Gronfa

Mae'r adroddiadau pwyllgor wedi ei cynnwys fel atodiad i'r adroddiad a bydd y swyddogion yn egluro'r cynnwys.

## **2. ARGYMHELLIAD**

### **Gofynnir i'r Bwrdd Pensiwn:**

-nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Pensiynau ar 21 Tachwedd 2022, craffu ar y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor, gofyn cwestiynau a chynnig sylwadau, lle'n briodol.

# Eitem 5a

CYFARFOD	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD	21 TACHWEDD 2022
TEITL	Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd ('TCFD') - Ymgynghoriad 'TCFD'
PWRPAS	I gyflwyno'r ymateb gan Cronfa Bensiwn Gwynedd i'r ymgynghoriad
ARGYMHELLIAD	Cymeradwyo'r ymateb
AWDUR	Dafydd L. Edwards, Cyfarwyddwr y Gronfa

---

## 1. Ymgynghoriad Llywodraeth y DU

Gydag effaith newid hinsawdd yn cael ei themlo'n fwy difrifol ar draws y byd, ar y 1af o Fedi lansiodd Adran Lefelu i Fyny, Tai a Chymunedau ('DLUHC') Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar lywodraethu ac adrodd ar risgiau hinsawdd yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

Yn ôl y disgwyl, mae'r cynigion am ei wneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol y CPLIL asesu, rheoli ac adrodd ar risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd, yn unol ag argymhellion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd ('TCFD'), a disgwylir i reoliadau ddod i rym erbyn Ebrill 2023.

Mae'r ymgynghoriad a'r cynigion yma'n berthnasol i holl gronfeydd CPLIL Cymru a Lloegr, ac fe'u nodir ymhen y ddolen ganlynol –

[Local Government Pension Scheme \(England and Wales\): Governance and reporting of climate change risks - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/consultations/local-government-pension-scheme-governance-and-reporting-of-climate-change-risks)

## 2. Ymateb i'r Ymgynghoriad

Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad i'w weld yn Atodiad 1. Mae hwn wedi ei baratoi gyda mewnbwn gan ymgynghorwyr y gronfa, Hymans Robertson.

## 3. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r ymateb.



**Cronfa Bensiwn Gwynedd (Tachwedd 2022)**

**Ymateb i'r ymgynghoriad: Llywodraethu ac adrodd ar risgiau newid hinsawdd**

Rydym yn cefnogi'r ymgynghoriad hwn a'r cynnig i ymgorffori gofynion llywodraethu risg hinsawdd ac adrodd yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), gan alinio'r sector cyhoeddus â'r gofynion sydd eisoes ar waith ar gyfer cynlluniau pensiwn y sector preifat. Fel buddsoddwyr hirdymor, gall y CPLIL chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy ei fuddsoddiadau a'i stiwardiaeth.

Er bod y cynigion yn cyfeirio at ganllawiau statudol disgwylidig ar gyfer awdurdodau gweinyddu (AG), credwn y gallai hefyd fod yn ddefnyddiol cael canllawiau ychwanegol, statudol neu fel arall, ar gyfer Cronfeydd CPLIL. O ystyried pwysigrwydd canllawiau o'r fath, rydym yn gobeithio y bydd y llywodraeth yn ymgynghori ar wahân ar y canllawiau hyn cyn i'r cynigion gael eu cwblhau.

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'n gofynion bwriedig mewn perthynas â llywodraethu?**

Credwn fod y gofynion bwriedig yn synhwyrol. Mae'r cynigion yn cyfeirio at yr arbenigedd a ddarperir gan swyddogion y pwyllgor, cynghorwyr a'r Pŵl – gallai fod yn ddefnyddiol i ganllawiau amlinellu enghreifftiau o'r cyngor y gellir disgwyl i bob un o'r swyddogion a'r Pŵl ei ddarparu.

**Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â'n gofynion bwriedig mewn perthynas â strategaeth?**

Rydym yn cytuno â'r gofynion bwriedig.

**Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r gofynion a awgrymir gennym mewn perthynas â dadansoddi senarios?**

Rydym yn cytuno â'r gofynion bwriedig.

**Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno â'n gofynion bwriedig mewn perthynas â rheoli risg?**

Rydym yn cytuno â'r gofynion ar reoli risg, gan nodi bod y dull bwriedig unwaith eto yn creu fframwaith ar gyfer ystyried risgiau a fydd yn cael ei ategu gan ganllawiau statudol.

**Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno â'n gofynion bwriedig mewn perthynas â metrigau?**

Ar y cyfan, rydym yn cefnogi'r gofynion. Mae categoreiddio data fel y nodir yn y cynigion yn synhwyrol, gyda ffocws ar ansawdd yn hytrach nag argaeledd. Mae angen i'r canllawiau fynd i'r afael â'r graddau y dylid disgwyl i AG amcangyfrif data coll neu ddata nad yw ar gael.

**Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno â'n gofynion bwriedig mewn perthynas â thargedau?**

Rydym yn cytuno â'r gofynion er yn credu y gellid eu cryfhau ychydig. Dylai'r canllawiau nodi'n glir mai'r targedau mwyaf defnyddiol a phriodol yw'r rhai lle mae'r AG yn gallu dylanwadu'n glir ar ganlyniadau yn erbyn y targed, yn hytrach na thargedau y gellid disgwyl eu cyflawni waeth beth fo'r camau a gymerir gan yr Awdurdod.

**Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno â'n dull o adrodd?**

Mae'r cynigion yn awgrymu un dull adrodd sy'n targedu cynulleidfaoedd lluosog, gan wneud awgrymiadau ynghylch sut y gellid darparu ar gyfer hyn. O ystyried natur gymhleth risg hinsawdd ac yn enwedig natur dechnegol llawer o'r gofynion llywodraethu ac adrodd, credwn y gallai

mabwysiadu ffurf safonol o'r crynodeb hwn tra'n caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran sut y caiff mwy o fanylion technegol eu cyfleu gefnogi tryloywder ar draws y CPLIL.

#### **Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno â'n cynigion ar Adroddiad Risg Hinsawdd y Cynllun?**

Credwn mai data cyfun fyddai'r ffordd fwyaf priodol o adrodd ar draws y CPLIL. Er nad ydym yn credu ei bod yn briodol cynnwys y data ar Oedolion Priodol unigol, rydym yn gweld hyn fel canlyniad anochel yr adrodd hwn. Os na chaiff ei wneud yn ganolog yna bydd cyrff eraill yn cynnal yr ymarfer hwn ac yn cyhoeddi'r wybodaeth, gan greu "tablau cynghrair". Gallai defnyddio tablau cynghrair o'r fath heb gyd-destun y strategaethau a fabwysiadwyd gan Gronfeydd unigol fod yn wrthgynhyrchiol, gan greu risg o her i Oedolion Priodol unigol, gydag adnoddau'n cael eu tynnu i mewn i ymateb i geisiadau manylach am wybodaeth. Er enghraifft, gall Cronfa sy'n mabwysiadu strategaeth fwy pwylllog i leihau allyriadau carbon fod yn gwneud mwy o gyfraniad at newid byd go iawn na Chronfa sy'n canolbwyntio ar leihau allyriadau carbon cyn gynted â phosibl, tra bod y ddwy strategaeth yn ddilys. Un o ganlyniadau posibl yr adrodd hwn yw y gallai Cronfeydd gael eu herio i weithredu nawr (lleihau allyriadau carbon drwy ddargyfeirio o sectorau sy'n allyriadau uchel) yn hytrach na gweithio gyda chwmnïau i annog datgarboneiddio prosesau a gweithgarwch economaidd.

#### **Cwestiwn 9: A oes gennych unrhyw sylwadau ar rôl y pwl CPLIL wrth gyflawni'r gofynion?**

Credwn y dylai'r pwl gefnogi a llywio stiwardiaeth drwy sicrhau bod strategaethau perthnasol ar gael, yn hytrach na'u pennu

#### **Cwestiwn 10: A ydych chi'n cytuno â'n hymagwedd bwriedig at ganllawiau?**

Rydym yn cytuno y dylid darparu canllawiau statudol, ond gan mai megis dechrau y mae adrodd ar yr hinsawdd ac awgrymu bod un dull adrodd a fyddai'n nodi'r ystod eang o arferion posibl ar hyn o bryd o bosibl yn amhriodol.

#### **Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno â'n hymagwedd bwriedig at wybodaeth, sgiliau a chyngor?**

Rydym yn cytuno bod angen i unigolion sy'n gwneud penderfyniadau mewn ymateb i brosesau rheoli risg hinsawdd feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth briodol o'r pwnc ac felly rhaid cael cyngor priodol o ansawdd uchel, tra dylai awdurdodau gweinyddu nodi eu hymagwedd at hyfforddiant perthnasol.

#### **Cwestiwn 12: A oes gennych unrhyw sylwadau ar effaith ein cynigion ar grwpiau gwarchoddedig a sut y gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw elfennau o'r cynigion a allai effeithio ar grwpiau gwarchoddedig.

CYFARFOD	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD	21 TACHWEDD 2022
TEITL	RHAGFANTOLI ARIAN CYFRED
PWRPAS	SEFYDLU TREFNIADAU RHAGFANTOLI ARIAN CYFRED MEWN PERTHYNAS Â RHAN O BORTFFOLIO ECWITI RHESTREDIG GWYNEDD
ARGYMHELLIAD	CYMERADWYO'R TREFNIADAU GWARCHOD ARIANNOL FEL Y CYNIGIR
AWDUR	DAFYDD L EDWARDS, CYFARWYDDWR Y GRONFA DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd bortffolio buddsoddi byd-eang ac mae hyn yn fuddiol ar adegau o arian cyfred gwan. Yn ystod mis Mehefin 2022 roedd Sterling y DU wedi gostwng 10% o gymharu â doler yr UD, ac o 17% pellach yn ystod mis Medi 2022. Er nad yw'r Gronfa wedi defnyddio rhagfantoli arian cyfred yn hanesyddol (ac eithrio ar gyfer mandadau incwm sefydlog), mae amodau presennol y farchnad yn golygu bod gallai fod yn ddoeth bellach amddiffyn rhai enillion diweddar rhag cynnydd yng ngwerth Sterling yn y dyfodol. Felly, ar y cyd â'n hymgyngorwyr, Hymans Robertson, mae swyddogion y Gronfa wedi archwilio effaith bosibl rhagfantoli arian cyfred mewn perthynas â rhan o'n portffolio ecwiti rhestredig.

## 2. RHAGFANTOLI ARIAN CYFRED

Mae papur Hymans yn Atodiad 1 yn nodi effaith rhagfantoli arian cyfred ar y Gronfa o ran opsiynau, cyfrannedd a risgiau. Er bod nifer o opsiynau (rhai yn ymwneud â modelu meintiol cymhleth) ar gael, mae swyddogion a ymgynghorwyr y Gronfa ar y cyd yn cynnig bod y Pwyllgor Pensiynau'n ystyried yn syml i warchod cyfran o'r risg arian cyfred drwy newid cronfeydd ecwiti byd-eang BlackRock i sail arian wedi'i warchod, fel mesur tactegol tymor byr. Byddai hyn yn rhagfantoli'r risg arian cyfred o tua 40% o ddyraniad ecwiti byd-eang y Gronfa. Byddai angen cael gwared ar y gwrych pan fydd y Sterling yn symud o fewn efallai 20% o'i gyfradd gyfnewid gyfartalog hirdymor. Byddai hyn yn cyfateb i gyfradd gyfnewid o \$1.30 i \$1.35 (tua 15% i 20% yn uwch na'r lefelau presennol).

**Mae rhwydweithio â chydweithwyr CPLIL wedi nodi bod** rhagfantoli arian cyfred yn brin ar gyfer ecwiti rhestredig y Cronfeydd, ond oherwydd amodau marchnad diweddar / cyfredol, mae swyddogion a ymgynghorwyr y Gronfa'n cytuno y byddai rhai camau amddiffynnol yn beth doeth ar hyn o bryd.

## 3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau gefnogi'r rhagfantoli arian cyfred a gynnig a gofyn i swyddogion ac ymgynghorydd y Gronfa sefydlu'r trefniadau rhagfantoli arian mewn perthynas â chronfeydd ecwiti byd-eang Gwynedd gyda BlackRock.

## Hedging foreign currency risk

### Introduction

This paper is addressed to the Pensions Committee (the “Committee”) and Officers of the Gwynedd Pension Fund (the “Fund”). It sets out the rationale for hedging a proportion of the Fund’s foreign currency exposure, discusses implementation options and provides our recommendations on next steps.

### Background

A large proportion of the Fund’s assets are invested overseas, with around 50% of assets invested in global equities. A summary of the Fund’s assets and associated currency exposures are shown in the appendix.


The returns from overseas investments are impacted by changes in the value of Sterling relative to foreign currencies. Currency movements have generally had a beneficial impact on Fund returns this year. This is illustrated by the example below, which shows that while returns on the US stock market have been significantly negative this year (-23.9%), the fall in the value of Sterling against the Dollar over the same period has helped to protect the value of these investments in Sterling terms (-7.6%). In this way, foreign currency exposure has provided a valuable source of diversification for the Fund this year.

This example is based on an investment of \$1,000 in the US S&P 500 index at 1 January 2022.

	1 January 2022	30 September 2022
US Dollar value of investment	\$1,000	\$760 (down 23.9%)
USD:GBP exchange rate	\$1.35	\$1.12
Equivalent Sterling value of investment	£740	£680 (down c7.6%)

Source: spglobal.com, Bloomberg. Note Sterling return is not exactly -7.6% due to rounding.

The chart below shows Sterling is significantly below its long-term average exchange rate against Dollar. We can’t say which direction the exchange rate will move in future but if Sterling were to increase in value (i.e. move back towards the long-term average), this would have a negative impact on returns, all else being equal. Hedging a proportion of the Fund’s currency risk now would help to “lock in” some of the gains the Fund has made from currency movements this year.



Source: Datastream, to end August 2022

### Strategic context

Currency exposure is not expected to be a long-term source of growth; it is a risk with no expected long-term benefit. Therefore, it is sensible to consider reducing this exposure if it can be achieved at low cost. The other point of view is that currency exposure provides a source of diversification and we have seen the benefits of this this year, as discussed above. More fundamentally, currency matters for a Sterling investor implementing a low risk investment strategy. However, for most LGPS funds it will look like a marginal risk over the longer term.

This said, the value of Sterling is low relative to long-term averages, particularly against the Dollar. We would support the Fund taking a tactical approach, which involves hedging a proportion of the Fund's currency exposure, provided this is supported by a clear strategy for removing the hedge as Sterling moves closer to its long-term average exchange rate.

### What options are there to hedge currency risk within the Fund?

Currency hedging can be implemented at a total Fund level although this approach would likely require a specialist manager to look across all of the Fund's currency exposures. Given the Fund's objectives (which are to increase the level of currency hedging on a shorter term, tactical basis), we believe a more suitable and straightforward approach is to switch the BlackRock global equity funds to a currency hedged basis. Under this approach, BlackRock would implement currency hedging as part of their pooled fund structure.

### What proportion of the Fund's currency risk should be hedged?

As noted above, currency risk is a source of diversification and this has proved beneficial this year. As such, we would not recommended to hedging all of the Fund's currency risk. Switching the BlackRock global equity funds to a currency hedged basis would allow the Fund to hedge c40% of its global equities allocation.

### What are the risks associated with the proposed approach?

If Sterling were to fall in value from current levels, the Fund would not benefit from any foreign currency gains on the assets that are hedged. The operational aspects of the currency hedged versions of the BlackRock global equity funds will also need to be reviewed to determine whether these introduce any additional risks (although we do not anticipate any significant issues).

### Next steps

We propose to work with Officers to expand on the high level comments set out in this paper to develop and implement a solution built around the following parameters:

- Hedge a proportion of the currency risk by switching BlackRock global equity funds to currency hedged basis.
- This would hedge the currency risk of c40% of the Fund's global equities allocation.
- Remove hedging when the Sterling moves to within perhaps 20% of its long-term average exchange rate. This would correspond to an exchange rate of \$1.30 to \$1.35 (about 15% to 20% above current levels).
- Recognising that the Fund also invests outside the US, we recommend the exchange rate is measured using the Purchasing Power Parity method, which looks at values of a range of currencies relative to Sterling.

We look forward to discussing this paper with the Committee and Officers.

Prepared by:-

Kenneth Taylor, Senior Investment Consultant

Rishi Muddha, Investment Analyst

For and on behalf of Hymans Robertson LLP

November 2022

**General Risk Warning**

Please note the value of investments, and income from them, may fall as well as rise. This includes equities, government or corporate bonds, and property, whether held directly or in a pooled or collective investment vehicle. Further, investments in developing or emerging markets may be more volatile and less marketable than in mature markets. Exchange rates may also affect the value of an investment. As a result, an investor may not get back the amount originally invested. Past performance is not necessarily a guide to future performance.

## Appendix – summary of Fund’s currency exposures

This table provides a summary of the Fund’s assets and associated currency exposures. Most of the currency exposure comes from the Fund’s overseas equities, which represent c50% of total assets. These are classed as “primary” currency exposures where the assets are denominated in overseas currencies. The Fund also has “secondary” exposures, e.g. a UK company that has material revenues from overseas and is therefore impacted by movements in Sterling. The Partners private equity and infrastructure mandates will likely have a mixture of primary and secondary exposures. The WPP absolute return bond fund employs currency hedging and this is implemented by the investment manager.

Fund	Current target allocation	Currency exposure
BlackRock UK equities	10.5%	Sterling denominated
BlackRock global equities (Fundamental Weighted)	7.0%	Unhedged
BlackRock global equities (World Low Carbon)	12.0%	Unhedged
WPP emerging markets	2.5%	Unhedged
WPP Global Growth	14.0%	Unhedged
WPP Global Opportunities	14.0%	Unhedged
Partners private equity	5.0%	Unhedged
Partners infrastructure	2.5%	Unhedged
UK property (UBS, Lothbury, BlackRock, Threadneedle)	10.0%	Sterling denominated
WPP multi-asset credit	7.5%	Unhedged
WPP absolute return bonds	15.0%	Currency hedged
Total	100.0%	

# Eitem 6

CYFARFOD	<b>BWRDD PENSIWN</b>
DYDDIAD	<b>15 RHAGFYR 2022</b>
TEITL	<b>Archwiliad perthnasol Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022</b>
PWRPAS	<b>Cyflwyno –</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Adroddiad ‘ISA260’ Archwilio Cymru;</b></li></ul>
ARGYMHELLIAD	<b>Nodi adroddiad yr archwilydd</b>
AWDUR	<b>Dafydd L Edwards, Cyfarwyddwr y Gronfa Delyth Wyn Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi</b>

---

## 1. **CYFRIFON 2021/22**

Cafodd Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2021/22 drafft ei cyflwyno i chi yn nghyfarfod Gorffennaf 2022.

## 2. **ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU**

Cafodd y cyfrifon drafft eu archwilio gan Archwilio Cymru, a chyflwynir yma adroddiad ‘ISA260’ ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar ddarganfyddiadau yr archwiliad. Ni chanfuwyd unrhyw gamddatganiadau perthnasol na hepgoriadau ac felly mae’r cyfrifon terfynol fel y rhai cyflwynwyd i chi yng Ngorffennaf 2022.

Cymeradwywyd y cyfrifon gan y Pwyllgor Pensiynau yn ei cyfarfod 21ain o Dachwedd 2022.

## 3. **ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i’r Bwrdd Pensiwn –**

- Nodi’r adroddiad ‘ISA 260’ gan Archwilio Cymru, a derbyn sylwadau’r archwilwyr.



## Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cronfa Bensiwn Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3245A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich Cyfrifon.

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad	4
Effaith Covid-19 ar Archwiliad Eleni	4
Barn archwilio arfaethedig	5
Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad	6
Atodiadau	
Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol	7
Atodiad 2 – Adroddiad Archwilio Arfaethedig	10

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

## Cyflwyniad

- 1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch adroddiad blynyddol a'ch cyfrifon ar gyfer 2021-22 yn yr adroddiad hwn..
- 2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Cyfarwyddwr y Gronfa Bensiwn a'i dîm.
- 3 Nid yw archwilwyr byth yn gallu rhoi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai beri fel arall i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain.
- 4 Pennwyd lefel perthnasedd o £27.794 miliwn ar gyfer archwiliad eleni.
- 5 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni'n sylweddol.
- 6 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; rydym yn annibynnol arnoch chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthnasoedd rhyngom ni a chithau a allai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein tyb ni..

## Effaith Covid-19 ar Archwiliad Eleni

- 7 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith barhaus ar y modd y cynhaliwyd ein harchwiliad. Rydym yn crynhoi'r prif effeithiau yn **Arddangosyn 1**. Ac eithrio lle'r ydym yn gwneud argymhellion penodol, darperir y manylion yn **Arddangosyn 1** er gwybodaeth yn unig i'ch helpu i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar broses archwilio eleni.

## Arddangosyn 1 – effaith COVID-19 ar archwiliad eleni

<b>Amserlen</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cawsom y cyfrifon drafft ar 27 Mehefin 2022 fel a gynlluniwyd. Mae hyn yn cydymffurfio â therfynau amser rheoleiddio.</li><li>• Rydym yn disgwyl i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi yn Tachwedd.</li></ul>
<b>Llofnodion electronig</b>	O ystyried gweithio o bell parhaus, byddwn yn defnyddio llofnodion electronig ar gyfer cymeradwyo ac ardystio cyfrifon eleni.
<b>Tystiolaeth archwilio</b>	Cynhaliwyd archwiliad y datganiadau ariannol o bell eto eleni gan: <ul style="list-style-type: none"><li>• gynnal cyfarfodydd Microsoft Teams gyda swyddogion trwy gydol yr archwiliad i drafod cynnydd a materion a oedd yn dod i'r amlwg; a</li><li>• defnyddio ein mynediad o bell i alluogi'r tîm archwilio i gael mynediad at gofnodion a systemau ariannol y Gronfa Bensiwn.</li></ul>

## Barn archwilio arfaethedig

- 8 Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.
- 9 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.
- 10 Mae'r Llythyr Sylwadau'n cynnwys ambell gadarnhad y mae'n ofynnol inni eu cael gennych chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhad o wybodaeth benodol arall yr ydych chi wedi'i darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.
- 11 Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

## Materion Arwyddocaol sy'n codi o'r Archwiliad

### Camddatganiadau nas cywirwyd

- 12 Nid oes unrhyw gamddatganiadau wedi'u canfod yn y cyfrifon, sy'n dal heb eu cywiro.

### Camddatganiadau a gywirwyd

- 13 Roedd rhai mân hebgoriadau a gwallau cyflwyniadol yn y datganiadau ariannol drafft sydd bellach wedi'u cywiro gan y rheolwyr.

## Materion Arwyddocaol eraill sy'n codi o'r Archwiliad

- 14 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol yn codi eleni.

## Argymhellion

- 15 Rydym yn bwriadu gwneud nifer fechan o argymhellion mewn adroddiad ar wahân i'r rheolwyr. Nid yw'r argymhellion yn cael unrhyw effaith ar ein barn ynglŷn â'r datganiadau ariannol.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Pennawd llythyr

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

## Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2021-22

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u gwirionedd a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau'r rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol â'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy; ac
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a

- mynediad digyfngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar y Gronfa Bensiwn Gwynedd ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; ac
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro.



## Sylwadau gan y Cyd-Bwllgor

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Bwyllgor Pensiynau Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 21 Tachwedd 2022.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Dewi Aeron Morgan

Pennaeth Cyllid

21 Tachwedd 2022

Llofnodwyd gan:

Y Cynghorydd Stephen Churchman

Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau

21 Tachwedd 2022

## Adroddiad Archwilio Arfaethedig

### Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer aelodau Cyngor Gwynedd sy'n gweithredu fel awdurdod gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd

#### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys cyfrif y gronfa, datganiad o'r asedau net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu perthnasol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodiadau ariannol y gronfa bensiwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, ac o swm a threfniadaeth ei hasedau a'i rhwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022.

#### Sail y farn

Cynhaliâs fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny i'w weld yn yr adran o fy adroddiad ar gyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol. Rwyf yn annibynnol o'r Gronfa Bensiwn Gwynedd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

#### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth perthnasol ar allu'r Gronfa Bensiwn Gwynedd i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## **Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi roi gwybod am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano i'r perwyl hwn.

## **Adroddiad ynghylch gofynion eraill**

### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r adroddiad blynyddol wedi ei baratoi yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

## **Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y Gronfa Bensiwn Gwynedd a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y datganiadau ariannol, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am asesu gallu'r Gronfa Bensiwn Gwynedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Cyngor a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau y Gronfa Bensiwn Gwynedd mewn cysylltiad â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;

- canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a'r
- rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- ystyried, gan weithredu fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll mewn rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau; ac
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Gronfa Bensiwn Gwynedd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae y Gronfa Bensiwn Gwynedd yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau y Gronfa Bensiwn Gwynedd.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Pensiynau;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r awdurdod gweinyddu; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau y Gronfa Bensiwn Gwynedd, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

## **Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon y Gronfa Bensiwn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton  
Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

# Eitem 7

<b>Cyfarfod:</b>	Bwrdd Pensiwn
<b>Dyddiad:</b>	15/12/2022
<b>Teitl:</b>	Diweddariad achos McCloud
<b>Pwrpas:</b>	Er Gwybodaeth yn unig
<b>Awdur:</b>	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

## 1. Cyflwyniad – Beth yw'r achos llys McCloud?

Pan ddiwygiodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn 2014 a 2015 fe gyflwynwyd amddiffyniadau ar gyfer aelodau hŷn. Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod aelodau iau o gynlluniau Pensiwn y Barnwyr a'r Diffoddwyr Tân wedi dioddef anffafiaeth oherwydd nad yw'r amddiffyniadau yn berthnasol iddynt hwy.

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd newidiadau i holl brif gynlluniau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), i ddileu'r anffafiaeth hon ar sail oed. Gelwir y dyfarniad hwn yn aml yn 'ddyfarniad McCloud' ar ôl aelod o Gynllun Pensiwn y Barnwyr sy'n ymwneud â'r achos.

## 2. Beth mae'n ei olygu i'r CPLIL?

Pan newidiodd y CPLIL o gynllun cyflog terfynol i gynllun pensiwn cyfartaledd gyrfa yn 2014, roedd aelodau a oedd o fewn 10 mlynedd i'w Oedran Pensiwn Arferol (65 oed fel arfer) ar 1 Ebrill 2012 yn cael eu diogelu gyda gwarchodaeth o'r enw 'tanategiad'. Pan fydd aelod gwarchoddedig yn cymryd ei bensiwn, mae'r buddion sy'n daladwy o dan y cynllun cyfartaledd gyrfa a chyflog terfynol yn cael eu cymharu a thelir y swm uwch.

Bydd angen i'r Llywodraeth roi amddiffyniad i aelodau iau sy'n gyfartal â'r amddiffyniad sylfaenol a ddarperir i aelodau hŷn er mwyn dileu'r anffafiaeth. Ymgynghorodd y Llywodraeth yn ddiweddar ar y newidiadau y mae angen eu gwneud i gyflawni hyn. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau arfaethedig i ben ar 8 Hydref 2020. Mae'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn dadansoddi'r ymatebion a disgwylir ymateb cyn diwedd 2022. Bydd ymgynghoriad pellach yn cymryd lle yn gynnar yn 2023 pan fydd y rheoliadau drafft yn cael eu rhyddhau. Disgwylir i'r rheoliadau terfynol ddod i rym ym mis Hydref 2023.

## 3. I bwy y bydd y newidiadau hyn yn berthnasol?

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu i'r newidiadau fod yn berthnasol i aelodau a oedd mewn gwasanaeth ar 31 Mawrth 2012 ac sydd hefyd gyda gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 (heb egwyl o fwy na phum mlynedd).

Os gadawodd aelod y cynllun cyn 1 Ebrill 2014 yna dim ond buddion yn y cynllun cyflog terfynol fydd wedi cael ei gronni, felly ni fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar eu pensiwn.

## 4. A fydd llawer o aelodau yn gweld cynnydd yn eu pensiwn?

Mae'r rhan fwyaf o aelodau'n annhebygol o weld cynnydd yn eu pensiwn, a lle mae cynnydd yn daladwy, mae'n debygol o fod yn fach. Mae hyn oherwydd y bydd y rhan fwyaf o aelodau yn cronni pensiwn uwch yn y cynllun pensiwn cyfartaledd gyrfa nag a fyddai ganddynt o dan y cynllun cyflog terfynol.



## **5. Pa waith sydd angen ei wneud?**

Mae prosiect McCloud yn brosiect sylweddol ar gyfer y Gronfa a'r cyflogwyr, ac ychydig iawn o newid a ddisgwylir i werth buddion aelodau ar ddiwedd y prosiect. Fodd bynnag, mae'n gyfle gwych i sicrhau bod ein data yn gywir ac yn gyfredol, fel y gallwn ddarparu data cywir ar y Dashfwrdd Pensiynau.

O safbwynt y gronfa, bydd y gwaith yn cynnwys:

- Adnabod y rhai sydd o fewn cwrpas yr amddiffyniad sylfaenol newydd (aelodau actif a'r rhai sydd wedi gadael);
- cael y data sydd ei angen i gyfrifo buddion cyflog terfynol gan gyflogwyr (yn ymwneud yn bennaf ag oriau rhan amser a seibiannau gwasanaeth);
- dilysu'r data a diweddarau cofnodion aelodau'r cynllun;
- ail gyfrifo buddion holl aelodau'r cynllun sydd wedi gadael, a thalu unrhyw dan daliadau/addasu lefel y pensiynau wrth symud ymlaen;
- Cyfathrebu ag aelodau;
- gwneud newidiadau i systemau a phrosesau gweinyddol i wneud gwaith gweinyddol parhaus gan ddefnyddio'r amddiffyniadau sylfaenol newydd o'r dyddiad dod i rym.

O safbwynt y cyflogwyr, bydd y gwaith hwn yn cynnwys:


- darparu data hanesyddol mewn perthynas ag aelodau'r cynllun;
- diweddarau prosesau a systemau i sicrhau bod data hefyd yn cael ei ddarparu'n barhaus ar gyfer aelodau presennol y cynllun.

Bydd y gronfa'n gweithio'n agos gyda chyflogwyr i'w cynorthwyo i ddeall y gofynion a chwilio am hawddfreintiau o ran sut y gellir darparu'r wybodaeth hon.

## **6. Pa waith sydd wedi ei wneud hyd yn hyn?**

Mae'r gwaith hyd yma wedi cynnwys:

- Darganfod y rhai sydd yng nghwrpas yr amddiffyniad sylfaenol newydd (aelodau actif a'r rhai sydd wedi gadael). Wrth weithio gyda Hymans Robertson, rydym wedi darganfod bod yna tua 11,500 o aelodau y credwn y bydd McCloud yn effeithio arnynt ac y bydd angen rhyw fath o adolygiad arnynt. O ran niferoedd gwirioneddol ym mhob adran, mae'r siart isod yn meintio nifer yr aelodau ym mhob categori:



Er nad yw'n ymddangos bod 6617 o aelodau actif yn llawer o gofnodion i'w hasesu, mae'n werth nodi bod gan nifer o bobl sy'n gweithio fel staff cymorth mewn ysgolion neu yn y proffesiwn gofal nifer o wahanol swyddi gydag oriau sy'n amrywio'n flynyddol – gall y cofnodion hyn gymryd cryn dipyn o amser i'w dehongli a'u cywiro;

- Gofyn am wybodaeth gan gyflogwyr bach a chanolig. Cysylltwyd â 22 o gyflogwyr a derbyniwyd ateb prydlon gan y rhan fwyaf. Ar hyn o bryd rydym yn aros am ateb gan y 3 chyflogwr arall. Allan o'r 22 o gyflogwyr, dim ond 5 cofnod oedd angen eu diwygio;
- Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cymryd lle gyda'n prif gyflogwyr i drafod y gofyniad data ac i olrhain cynnydd. Mae data wedi dechrau dod drwodd ac mae gwaith wedi dechrau i ddilysu'r data.

## 7. Beth sydd angen ei wneud?

Mae'r gwaith i'w wneud yn cynnwys:

- Parhau i weithio gyda'r cyflogwyr er mwyn cael y data sydd ei angen i gyfrifo buddion cyflog terfynol;
- dilysu'r data a diweddarau cofnodion aelodau'r cynllun;
- ail gyfrifo buddion holl aelodau'r cynllun sydd wedi gadael, a thalu unrhyw dan daliadau/addasu lefel y pensiynau wrth symud ymlaen.

Y gobaith yw y bydd datblygiadau gyda'n meddalwedd yn ein helpu i ail-gyfrifo buddion ar gyfer holl aelodau'r cynllun sydd wedi gadael, a thalu unrhyw dan daliadau/addasu lefel pensiynau wrth symud ymlaen, fodd bynnag teimlwn fod dilysu'r data a diweddarau cofnodion aelodau'r cynllun yn fater o bwys a gorau yw ei wneud â llaw.

Yn y Pwyllgor Pensiynau ym mis Ionawr 2022 cawsom gyllid ar gyfer 3 Cymhorthydd Pensiynau dros dro i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn. Ar hyn o bryd mae 2 o'r swyddi hyn heb eu llenwi, ac mae recriwtio staff newydd yn her fawr i gronfeydd ledled y DU, yn enwedig swyddi dros dro. Mae hysbyseb swydd wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar i lenwi'r swyddi hyn.

## **8. Casgliad**

Bydd y prosiect McCloud yn brosiect mawr i'r gronfa dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r gwaith wedi dechrau'n dda ac rydym yn hyderus, gyda chydweithrediad y cyflogwyr, y gallwn gwblhau'r gwaith yn llwyddiannus unwaith y bydd gennym dîm llawn yn ei le.

Fel y crybwyllwyd yn adroddiad y Dashfwrdd Pensiynau, rydym yn gobeithio y bydd y gwaith o ddilysu'r data ar gyfer achos McCloud yn sicrhau bod ein data o ansawdd uchel fel y gall aelodau weld data cyflawn a chywir ar y dangosfwrdd neu ar ein porth Fy Mhensiwn Ar-lein.

# Eitem 8

<b>Cyfarfod:</b>	Bwrdd Pensiwn
<b>Dyddiad:</b>	15/12/2022
<b>Teitl:</b>	RHAGLEN DASHFYRDDAU PENSIYNAU
<b>Pwrpas:</b>	Er gwybodaeth yn unig
<b>Awdur:</b>	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

## 1. Cyflwyniad

O ganlyniad i gofrestru awtomatig, mae mwy o bobl nag erioed bellach yn cynilo ar gyfer eu hymddeoliad. Yn ogystal, mae newid ym mhatriymau gwaith pobl dros yr ychydig ddegawdau diwethaf yn golygu y gall pobl gronni cronfeydd pensiwn lluosog a all fod yn anodd eu holrhain.

Mae'r Rhaglen Dashfyrddau Pensiynau wedi'i chreu gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (corff a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau), i ganiatáu unigolion gael mynediad at eu holl wybodaeth pensiynau yn ddiogel mewn un lle.

## 2. Beth yw dashfyrddau pensiynau?

Mae dashfyrddau pensiynau yn wasanaethau digidol—apiau, gwefannau neu offer eraill—y bydd aelodau yn gallu eu defnyddio i weld eu gwybodaeth pensiwn mewn un lle. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am eu Pensiwn Gwlad. Ni fydd dashfyrddau pensiynau yn dangos pensiynau sydd eisoes yn cael eu talu.

Bydd aelodau yn defnyddio dashfyrddau i chwilio cofnodion pob cynllun pensiwn i gadarnhau a yw'n aelod ai peidio. Byddant yn gallu gweld gwybodaeth eu hunain neu gallent awdurdodi trydydd parti cymwys i'w gweld.

Nod dashfyrddau yw helpu aelodau i gynllunio ar gyfer ymddeoliad drwy:

- dod o hyd i'w gwahanol bensiynau a'u hailgysylltu ag unrhyw gronfeydd pensiwn a gollwyd;
- deall gwerth eu pensiynau o ran incwm ymddeol amcangyfrifedig.

## 3. Pa wybodaeth y gall aelodau ei gweld ar ddashfyrddau pensiynau pan fyddant yn lansio?

Bydd y wybodaeth sydd ar gael ar ddashfyrddau yn dechrau gyda gwybodaeth syml debyg i'r hyn sydd eisoes ar gael i bobl ar ddatganiadau buddion blynyddol. Bydd hyn yn cynnwys manylion pensiynau sydd wedi'u darganfod yn llwyddiannus, gan gynnwys enw'r darparwr y pensiwn, y ffordd orau o gysylltu â nhw a gwerth y pensiwn hwnnw.

Bydd aelodau eisiau gweld fwy o fanylion ar y ddashfyrddau yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â'u hincwm tebygol ar ôl ymddeol, ond bydd angen ymgynghori ar heriau megis sut i gytuno ar set safonol o dybiaethau a chyfrifiadau yn gyntaf.

## 4. Sut bydd y dashfyrddau'n gweithio?

Disgwylir darparwyr dashfwrdd lluosog yn y farchnad. Bydd unigolion yn llywio i ddashfwrdd o'u dewis ac yn cyflwyno cais i weld eu gwybodaeth pensiynau. Bydd y dashfyrddau wedyn yn cyhoeddi ceisiadau electronig i bob cynllun pensiwn i chwilio am bensiwn yr unigolyn. Os canfyddir cofnod, mae'r cynllun yn dychwelyd y lleoliad i'r dashfwrdd, gan ganiatáu i'r

unigolyn weld ei fanylion pensiwn ar-lein. Lle gwneir darganfyddiad rhannol, bydd gan gynlluniau amserlen fer i ymchwilio a chadarnhau a yw'n cyfateb yn union, ac yna darparu manylion yn ôl yr angen.

## **5. Beth fydd y dashfyRDDau pensiynau yn ei olygu i awdurdodau gweinyddu a chyflogwyr y cynllun?**

Yn fras, bydd yn rhaid i awdurdodau gweinyddol fodloni gofynion cofrestru gyda'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MAPS). Mae hyn yn golygu sicrhau cysylltiad ag ecosystem y dashfyRDDau, darparu gwybodaeth am gynlluniau penodol a phensiynau unigol fel rhan o "geisiadau canfod", a chadw cofnodion ar ystod o wybodaeth reoli am o leiaf chwe blynedd. Rhaid darparu hyn oll i MAPS, y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r FCA ar gais.

## **6. Pryd fydd yn rhaid i ni gysylltu â'r dashfwrdd?**

Rhaid i gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus gysylltu â'r dashfwrdd erbyn 30 Medi 2024.

## **7. Pa waith fydd ei angen i fod yn barod ar gyfer y dashfwrdd?**

Bydd yn rhaid i ni benodi Darparwr Gwasanaeth Integredig (ISP) i gysylltu ag ecosystem y dashfwrdd pensiynau. Mae ein darparwr meddalwedd Heywood Pensions Technologies ar hyn o bryd yn datblygu ISP eu hunain y gellid ei ddefnyddio. Ar hyn o bryd rydym yn aros am y pris ar gyfer yr ISP hwn, ond bydd ISP eraill ar gael a bydd yn rhaid ystyried y rhain hefyd.

Unwaith y byddwn wedi cysylltu â'r dashfwrdd, bydd llawer o'r seilwaith technegol yn cael ei drin gan ein darparwr meddalwedd a bydd prosesu "ceisiadau canfod" o ddydd i ddydd gan unigolion yn cael eu hawtomeiddio. Serch hynny, mae digon o waith paratoi o hyd ar gyfer awdurdodau gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'u cyflogwyr. Mae'n debygol hefyd y bydd ymholiadau o ddydd i ddydd gan aelodau unwaith y bydd dashfyRDDau ar waith.

Y brif her i'r gronfa yw sicrhau bod y data sydd gennym ar y system yn gywir. Er ein bod yn sgorio'n uchel yn sgorau data cyffredin a chynllun penodol y Rheoleiddiwr Pensiynau, bydd yn rhaid i ni gydymffurfio â safon newydd, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd mewn perthynas â'r rhaglen dashfwrdd pensiynau.

Er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r gwaith hwn rydym wedi comisiynu ein darparwr meddalwedd i ddarparu adroddiad Asesiad Parodrwydd DashfyRDDau Pensiynau.

Fel allbwn o'r ymarfer hwn, byddwn yn derbyn canlyniadau cryno i'n helpu i ddeall ansawdd ein data a pha gamau y bydd angen i ni eu cymryd i baratoi ar gyfer DashfyRDDau Pensiynau.

Bydd y canlyniadau cryno yn cynnwys sgôr ar gyfer pob un o'r meysydd canlynol:

- 'Dod o hyd i' data:
  - Gwirio meysydd paru posibl (enw, dyddiad geni, cyfeiriad) i benderfynu a yw'r data sydd gennych yn bresennol, yn ddilys ac yn gywir;
  - Gwirio am aelodau a fyddai'n ddyblyg ar hyn o bryd;
  - Gwirio am ymadawyr heb benderfynu ac ad-daliadau wedi rhewi.

- 'Gweld' data:
  - Gwirio bod data cyflogaeth ar gael i'w ddychwelyd i'r Dashfyrddau Pensiynau ar gyfer cyflogaeth pob aelod;
  - Gwirio fod Incwm Ymddeol Cronedig ar gael ar gyfer cyflogaeth pob aelod;
  - Gwirio fod Incwm Ymddeoliad Amcangyfrif ar gael ar gyfer cyflogaeth pob aelod.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi syniad i ni o ba waith sydd ei angen ei gyflawni er mwyn bod yn barod ar gyfer y dashfwrdd.

Ar hyn o bryd mae gennym ôl-groniad o waith i'w wneud o ran ymadawyr heb eu prosesu. Mae'n arbennig o bwysig bod y rhain yn cael eu clirio cyn cysylltu ag ecosystem y dashfyrddau. Mae adnoddau staffio ychwanegol wedi'u dyrannu i'r gwaith hwn yn ddiweddar ac mae hysbyseb swydd wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar ar gyfer 2 Gynorthwydd Pensiynau dros dro i helpu gyda'r gwaith hwn.

## **8. Casgliad**

Gyda bron i 2 flynedd i fynd nes bydd angen i ni gysylltu â'r dashfwrdd mae angen llawer o waith i sicrhau bod ein data o ansawdd uchel er mwyn i aelodau gweld data cyflawn a chywir ar y dashfwrdd.

Y gobaith yw y bydd yr adnoddau ychwanegol a ddyrennir i'r prosiect hwn yn helpu i glirio'r ôl-groniad, ond bydd y gwaith hwn hefyd yn dibynnu ar gyflogwyr y cynllun i ddarparu data i ni er mwyn cau'r cofnodion ymadawyr heb eu prosesu.